


## 4.3. Golygu Cynnwys - Mewniodd Delweddau

**Sylwer:** Cyn mewniodd delwedd, mae'n rhaid bod y ddelwedd yn y Llyfrgell Cyfryngau. Os hoffech ddefnyddio delwedd newydd sydd ddim yno eisoes, gweler [Taflen Wybodaeth 7](#) am fanylion ynglŷn â sut i lwytho delwedd i'r Llyfrgell Cyfryngau. Mae rhai eithriadau i hyn, lle caiff delweddau eu llwytho o fewn y templed cynnwys.

1. Rhowch eich llygoden yn y man ar y dudalen lle'r hoffech osod y ddelwedd.



2. Cliciwch ar y botwm 'Add an image or link to a file from the Media Library':

3. Bydd ffenestr "Select media" yn ymddangos:


The screenshot shows a 'Select media' window with a search bar and a table of media items. The table has columns for Name, Version, Status, Filename, Type, and Size. The items listed are related to the 2011 Welsh Election Study.

Preview	Name	Version	Status	Filename	Type	Size	Actions
	2011 Welsh Election Study - Post-election wave (.sav) 2011 Welsh Election Study - Post-election wave (.sav)	1.0	Approved	wes_post.sav	Adobe PDF Document	2.5 MB	Actions
	2011 Welsh Election Study - Pre-election wave (.dta) 2011 Welsh Election Study - Pre-election wave (.dta)	1.0	Approved	wes_pre.dta	Adobe PDF Document	8.7 MB	Actions
	2011 Welsh Election Study - Pre-election wave (.sav) 2011 Welsh Election Study - Pre-election wave (.sav)	1.0	Approved	wes_pre.sav	Adobe PDF Document	2.4 MB	Actions
	2011 Welsh Election Study - Two-wave panel data (.dta) 2011 Welsh Election Study - Two-wave panel data (.dta)	1.0	Approved	wes_combined.dta	Adobe PDF Document	14.4 MB	Actions
	2011 Welsh Election Study - Two-wave panel data (.sav) 2011 Welsh Election Study - Two-wave panel data (.sav)	1.0	Approved	wes_combined.sav	Adobe PDF Document	4.1 MB	Actions


4. Porwch drwy'r categorïau ar y chwith i ddod o hyd i'r maes priodol yn y Llyfrgell Cyfryngau. Caiff y rhan fwyaf o ddelweddau adrannol eu storio o fewn yr adran briodol o dan y categori 'Departmental'.

5. Dewch o hyd i'r ddelwedd rydych chi eisiau ei defnyddio, a cliciwch ar ei henw er mwyn ei dewis.

6. Os oes fersiynau amrywiol o'r ddelwedd, byddant yn cael eu harddangos, fel y gallwch ddewis y fersiwn gywir (neu fel arall bydd y ddelwedd yn cael ei mewnosod i'r dudalen yn syth).



7. Cliciwch ar enw'r fersiwn yr hoffech ei defnyddio er mwyn ei dewis.
8. Bydd y ddelwedd nawr yn cael ei harddangos yn y dudalen 'Content Editor'.
9. Dwbl-gliciwch ar y ddelwedd - bydd ffenestr 'Media Attributes' yn ymddangos.



10. Rhwch ddisgrifiad cryno o'r ddelwedd yn y blwch testun amgen.

11. Y safle ragosodedig ar gyfer y ddelwedd fydd ar ochr dde'r dudalen, gyda'r testun yn llifo o'i amgylch ar y chwith. Os byddai'n well gennych osod y ddelwedd mewn man gwahanol, gallwch roi dosbarthiadau gwahanol yn y blwch dosbarth i reoli hyn:

- Os ydych am i'r ddelwedd gael ei harddangos ar ochr chwith y dudalen gyda'r testun yn lapio o'i amgylch, teipiwch "float-left" yn y blwch dosbarth.
- Os ydych am i'ch delwedd fod ar y chwith ar linell newydd, gyda'r testun yn parhau oddi tano, teipiwch "float-none" yn y blwch dosbarth.
- Os ydych am i'ch delwedd gael ei chanoli, teipiwch "centre" yn y blwch dosbarth.

**Sylwer:** ni fydd unrhyw newidiadau i ddosbarth y ddelwedd yn cael unrhyw effaith yn ffenestr y Golygydd (ar wahân i'r canoli), ond byddwch yn gallu gweld canlyniadau'r newidiadau pan fyddwch yn creu rhagolwg o'r dudalen.